# Cofnodion - Y Pwyllgor Busnes

Lleoliad:

**Cynhadledd Fideo Zoom**

Dyddiad: Dydd Llun, 18 Ionawr 2021

Amser: 11.03 - 12.48

# Preifat

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
| --- | --- |
| Aelodau'r Pwyllgor: | Elin Jones AS, Llywydd (Cadeirydd)<br>Rebecca Evans AS<br>Darren Millar AS<br>Siân Gwenllian AS<br>Caroline Jones AS |
| Staff y Pwyllgor: | Aled Elwyn Jones (Clerc) |
| Eraill yn bresennol | Ann Jones AS, Y Dirprwy Lywydd<br>Manon Antoniazzi, Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd<br>Siwan Davies, Cyfarwyddwr Busnes y Senedd<br>Siân Wilkins, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Phwyllgorau<br>Julian Luke, Pennaeth Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth<br>Gwion Evans, Pennaeth Swyddfa Breifat y Llywydd<br>Elin Roberts, Cynghorwr Polisi i'r Llywydd<br>Helen Carey, Llywodraeth Cymru<br>Bethan Garwood, Dirprwy Glerc<br>Matthew Richards, Pennaeth y Gwasanaeth Cyfreithiol |

# 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

# 2 Y Rheolau Sefydlog

## 2.1 Diwygio Rheolau Sefydlog mewn perthynas â Brexit

Cytunodd y Pwyllgor mewn egwyddor i'r newidiadau arfaethedig a nododd y newid ychwanegol sy'n ofynnol o ganlyniad i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Perthynas yn y Dyfodol) 2020.

## 2.2 Sub Judice

Cytunodd y Pwyllgor i adolygu darpariaethau presennol y Rheolau Sefydlog sy'n ymwneud â sub judice, a chytunodd i ddychwelyd at y cwestiwn a ddylid cynnwys eithriadau yn y Rheolau Sefydlog neu mewn canllawiau.

## 2.3 Diwygio'r Rheolau Sefydlog – Biliau Cydgrynhoi

Cytunodd y Pwyllgor ar yr ymateb arfaethedig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, a chytunodd mewn egwyddor â Rheol Sefydlog 26C newydd ddrafft a Chanllawiau drafft y Llywydd.

## 2.4 Gweithdrefnau Busnes Cynnar

Cytunodd y Pwyllgor ar y cynigion a nodir yn y papur.

## 2.5 Adolygu'r Rheolau Sefydlog mewn perthynas â grwpiau gwleidyddol

Ystyriodd y Pwyllgor y materion a nodir yn y papur a gofynnodd i'r Ysgrifenyddiaeth gyflwyno papur gydag opsiynau manylach ar gyfer diwygio Rheol Sefydlog 1.3

## 2.6 Gweithdrefnau Adalw

Ystyriodd y Pwyllgor y papur a gofynnodd am bapur pellach gyda rhagor o fanylion yn seiliedig ar yr opsiynau a nodir yn y papur.